# Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

23ain o Ebrill 2021

Annwyl riant/ofalwr,

Mae wedi bod yn bleser mawr croesawu pob un o'n disgyblion yn ôl i'r ysgol y tymor hwn. Mae presenoldeb wedi bod yn dda, dros 90%, ac mae'r agweddau tuag at ddysgu wedi bod yn gadarnhaol iawn.

**Graddiau a Bennir gan Ganolfannau (GBG)**

Mae Blwyddyn 11 wedi dechrau eu hasesiadau i benderfynu graddau TGAU ym mhob maes pwnc. Ar ran yr holl staff, hoffwn longyfarch disgyblion Blwyddyn 11 am y ffordd hynod aeddfed y maent yn cymeryd i'r afael â'r her hon. Mae presenoldeb yn ystod rhaglen adolygu'r Pasg a hefyd sesiynau adolygu ar ôl ysgol wedi bod yn rhagorol, gan ddangos bod gwir awydd yn y grŵp blwyddyn i gyflawni'r graddau gorau posibl. Da iawn Blwyddyn 11, daliwch ati! I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses GBG ewch i'r ardal bwrpasol ar wefan yr ysgol. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at wendy.davies@ysgolbrogwaun.com

**Gwisg Ysgol**

Rydym wedi bod yn falch iawn ar y cyfan gyda safon y wisg ysgol. Fel yr amlygwyd mewn llythyron blaenorol, gall ddisgyblion ddewis gwisgo'r wisg gaeaf neu haf. Er ein bod yn gwerthfawrogi ei bod yn fwy synhwyrol prynu rhai eitemau fel esgidiau a throwsus ym mis Medi, gofynnwn yn garedig i gadw at ein polisi gwisg yn ystod y tymor hwn. **O Ddydd Llun, ni chaniateir gwisgo hwdis yn yr ysgol.** Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth gyda hyn.

**Nosweithiau Ymgynghori Rhieni Blwyddyn 7 a 9 - Dyddiadau newydd**

Fel y mae rhieni/gofalwyr y grwpiau blwyddyn hyn yn ymwybodol, roedd yn rhaid i ni ohirio'r nosweithiau yn gynharach yn y flwyddyn oherwydd y cyfnod clo. Ers hynny, rydym wedi treialu rhaglen ymgynghori rhieni ar-lein yn llwyddiannus gyda grwpiau blwyddyn eraill, ac rwy'n falch o'ch hysbysu ein bod wedi aildrefnu'r nosweithiau ar gyfer Blynyddoedd 7 a 9 fel a ganlyn:

Blwyddyn 9 - Dydd Mercher 30 Mehefin - 3:30yp - 6: 00yh
Blwyddyn 7 - Dydd Mercher 7fed Gorffennaf - 3:30yp - 6: 00yh

Bydd y rhain hefyd yn ddigwyddiadau ar-lein, ac anfonir manylion pellach ynghylch cofrestru ac archebu slotiau amser maes o law.

**'Covid-19'**

Fel y gwyddoch efallai, mae Profion Llif Ochrol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru wedi cael eu rhoi i staff a disgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Hoffwn eich atgoffa fodd bynnag, os byddwch chi neu'ch plentyn/plant yn datblygu symptomau Covid- 19, rydych chi i hunan-ynysu a threfnu prawf 'PCR' cyn gynted â phosibl, trwy ffonio 119 neu archebu prawf ar-lein. Nodyn i'ch atgoffa mai'r prif symptomau yw:

Dylai unrhyw un sydd â symptomau coronafirws hunan-ynysu a chael prawf. Symptomau coronafirws yw:

- peswch parhaus newydd
- tymheredd uchel
- colli neu newid i arogl neu flas

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir

Mr P Edwards
Pennaeth

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CANOLFAN ACHREDEDIG CBAC WJEC ACCREDITED CENTRE

The Open University
ITT Programme Partner School

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY